



## Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

### Cyfarfod rhif cant a saith o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr

Cofnodion a gadarnhawyd y cyfarfod ar 14 Mawrth 2018, 11.00-13.00

Busnes agored

#### Presennol

**Aelodau:** Mr Christopher Banks (Cadeirydd) Yr Athro Joy Carter  
Mr Stephen Criddle Dr Vanessa Davies  
Ms Linda Duncan Ms Sara Drake  
Yr Athro John Grattan Yr Athro Maria Hinfelaar  
Mr Oliver Johnson Yr Athro Craig Mahoney  
Yr Athro Denise McAlister Yr Athro Tim McIntyre-Bhatty  
Yr Athro Andrew Wathey Mr Craig Watkins  
Mr Philip Wilson

#### Ymddiheuriadau

**Aelodau:** Mr Robert Cashman  
Mr Amatey Doku  
Yr Athro Philip Winn

#### Yn bresennol

**Swyddogion:** Mr Douglas Blackstock (Prif Weithredwr)  
Miss Lavinia Blackett  
Mrs Natalie Haines  
Mr Ian Kimber  
Mr Will Naylor  
Ms Rowena Pelik  
Mrs Liz Rosser

**Cynrychiolwyr aelodau'r cwmni:** Mr Alex Bols (GuildHE)  
Mr William Hammonds (Prifysgolion y DU)

**Arsyllwyr:** Mr Ben Elger (Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol)  
Mr Alex Proudfoot (Independent HE)  
Ms Arti Saraswat (Cymdeithas y Colegau)  
Mr Gareth Lindop (Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr)

## **Croeso ac ymddiheuriadau**

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion a chynrychiolwyr aelodau'r cwmni i'r cyfarfod, a nododd yr ymddiheuriadau.
2. Estynnwyd croeso arbennig i aelodau newydd y Bwrdd Craig Watkins, Vanessa Davies a Sara Drake.

## **Cworwm a buddiannau**

### Cworwm a buddiannau (eitem 2)

3. Cytunwyd bod cworwm yn y cyfarfod. Cyhoeddodd yr Athro Andrew Wathey ei fod wedi cael ei benodi'n gyfarwyddwr anweithredol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrywyr. Nodwyd hyn yn y gofrestr o fuddiannau. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau eraill.

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2017 (eitem 3, BD-2018-01)

4. Cytunwyd bod cofnodion busnes agored y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2017 yn gofnod ffyddlon a chywir o'r cyfarfod.
5. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion nad oeddent ar yr agenda beth bynnag.

## **Yr eitemau i'w trafod**

### Adroddiad y Prif Weithredwr (eitem 5, BD-2018-02)

6. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau diweddar mewn polisïau. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r aelodau at y materion a ganlyn:
  - Ar 8 Chwefror 2018, cadarnhaodd Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg y DU mai QAA yw'r corff sicrhau ansawdd dynodedig i Lloegr, o dan ddarpariaethau Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017. Cafwyd y dynodiad hwn yn dilyn ymgynghoriad gan yr Adran Addysg yn Lloegr, ac roedd yr ymateb i hwn yn hynod bositif, gyda 98% o'r ymatebwyr yn datgan bod QAA yn ateb yr holl ofynion ar gyfer dynodiad. Dyddiad gweithredu'r dynodiad oedd 1 Ebrill 2018.
  - Roedd Prif Weithredwyr QAA a'r Swyddfa Myfyrywyr yn Lloegr wedi cynnal eu cyfarfod cyntaf yn dilyn y dynodiad. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar ddiffinio perthnasoedd drwy Gytundeb Dynodiad oedd yn dderbyniol i bawb, trefniadau pontio ar gyfer symud i'r fframwaith rheoleiddio newydd, gan gynnwys cyllido trawsnewidiol ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-19 cyn y daw'r fframwaith cyflawn yn weithredol ar 1 Awst 2019.
  - Yn dilyn ymgynghoriad estynedig gyda'r sector, cafodd y Cod Ansawdd diwygiedig ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU ar 14 Chwefror 2018. Byddai'r fersiwn diwygiedig o'r Disgwyliadau a'r Arferion yn cael eu lansio yn hwyr ym mis Mawrth 2018. Y cam nesaf fyddai cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ar y cyngor a'r cyfarwyddyd diwygiedig sy'n tanategu'r Cod Ansawdd, i gychwyn ym mis Mai 2018. Y bwriad oedd bod y Cod Ansawdd cyflawn yn cael ei gynhyrchu erbyn Tachwedd 2018. Diolchodd yr Athro Wathey i QAA am ei chyfraniad i'r gwaith yma yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU.
  - Darparwyd diweddariadau ar gydweithrediad gyda'r Cyngor Prydeinig a gweithgareddau rhyngwladol sydd ar y gweill.

7. Ar ran y Bwrdd, roedd y Cadeirydd eisiau cofnodi'n ffurfiol mor falch ydoedd bod QAA wedi cael ei dynodi'n gorff sicrhau ansawdd dynodedig Lloegr o dan ddarpariaethau Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 a mynegodd ei ddiolch i bawb oedd wedi cyfrannu at gyflawni'r garreg filltir bwysig hon i'r Asiantaeth.

#### Cynhadledd Flynyddol 2018 QAA (eitem 6, BD-2018-03)

8. Derbyniodd y Bwrdd bapur oedd yn amlinellu manylion Cynhadledd Flynyddol QAA, oedd yn cynnwys rhestr o'r prif siaradwyr a fformat y ddau ddiwrnod. Thema a theitl y gynhadledd oedd "*Uwchgynhadledd Ansawdd Addysg Uwch y DU: Sicrhau Effaith drwy Arloesi*". Byddai'r gynhadledd wedi'i chynnal ar 24 a 25 Ebrill 2018 yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd, gyda'r cinio'n digwydd gyda'r nos ar Ddydd Mawrth 24 Ebrill yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Estynnwyd diolch i'r aelodau hynny o'r Bwrdd oedd wedi cynnig cadeirio sesiynau yn y digwyddiad. Byddai rhagor o fanylion am y sesiynau unigol yn cael eu hanfon allan gynted ag y bod modd.
9. Cadarnhaodd Mrs Rosser bod lle i 350 yn safle'r gynhadledd a bod oddeutu 176 wedi cofrestru hyd hynny. Dywedodd bod y nifer yma'n uwch na'r nifer oedd wedi cofrestru ar y cam hwn mewn blynyddoedd blaenorol. **Ystyriodd** y Bwrdd y rhaglen o ddigwyddiadau a gwahoddwyd yr aelodau hynny oedd heb ateb i roi eu hymateb.

#### Goblygiadau'r dynodiad (eitem 7, BD-2018- 04)

10. Cyflwynodd Mr Naylor bapur ar oblygiadau dynodiad QAA o dan baragraff 3(3) yn Atodlen 4 Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017.
11. Roedd y papur yn darparu gwybodaeth fanwl am rôl y corff sicrhau ansawdd dynodedig mewn perthynas â phedair swyddogaeth wahanol:
  - adolygiadau ansawdd porth o ymgeiswyr newydd i gofrestr y Swyddfa Myfyrwyr
  - monitro aml neu ddwys o'r darparwyr hynny yr ystyrir bod risg y gallent beidio cydymffurfio
  - asesiadau manwl o ddarparwyr y drwgdybir eu bod heb ateb amodau cychwynnol neu barhaus y cofrestriad
  - darparu cyngor am geisiadau am bwerau dyfarnu graddau.
12. Cadarnhaodd Mr Naylor bod swyddogion Swyddfa'r Myfyrwyr, mewn trafodaethau cychwynnol gyda'r Swyddfa honno, wedi pwysleisio'r gwahaniaethau sylfaenol ym mhwrpasau'r Swyddfa o'i gymharu gyda'i rhagflaenydd HEFCE, a sut y mae'n rhaid i'r gwahaniaethau hyn gael eu hadlewyrchu yn yr agwedd a gymerir gan y Swyddfa a gan gyrff eraill a fyddai'n gweithio ar ei rhan, yn cynnwys y corff sicrhau ansawdd dynodedig. Cafwyd cyfeiriad hefyd at y gofyniad yma am ddull athronyddol gwahanol yn y llythyr gan Fwrdd y Swyddfa Myfyrwyr i Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg y DU yn argymhell dynodiad QAA.
13. Nododd y Bwrdd y byddai union rôl a dull y corff sicrhau ansawdd dynodedig dan drafodaeth cyn hir yn y Swyddfa Myfyrwyr ac y byddent wedi'u nodi'n benodol mewn Cytundeb Dynodi. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod cyfarfod wedi'i drefnu iddo i gwrdd â'r Cyfarwyddwr dros Gystadleuaeth a'r Gofrestr yn y Swyddfa Myfyrwyr yr wythnos ddilynol i gychwyn trafodaethau.
14. Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth fanwl i oblygiadau dynodiad yr Asiantaeth ac, yn unol â'r flaenoriaeth allweddol a osodwyd gan y Bwrdd yn ystod ei 'ddiwrnod allan' ym mis Hydref 2017, tynnodd sylw at bwysigrwydd datblygu a diffinio'n glir y berthynas rhwng y corff

sicrhau ansawdd dynodedig a'r Swyddfa Myfyrwyr a'r swyddogaethau y byddai'r corff dynodedig yn eu gwneud. Yn sail i'r berthynas honno dylid cael darpariaethau Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 a'r ymrwymadau a roddir gan Weinidogion i Seneddau wrth basio'r Ddeddf hon, gan gynnwys y ffaith fod angen i'r corff dynodedig gadw at yr egwyddor o gyd-reoleiddio a chadw annibyniaeth wrth hefyd gydbwysu buddiannau'r Swyddfa Myfyrwyr, y Llywodraeth a'r sector i ddiogelu buddiannau'r myfyrwyr. Pwysleisiodd y Bwrdd y rôl allweddol y gallai'r Asiantaeth ei chwarae wrth gefnogi'r Swyddfa Myfyrwyr i ddatblygu ei dull a'i methodoleg ar y cam cynnar hwn ac roedd yn annog y syniad o ddatblygu dull partneriaeth gyda'r Swyddfa. Ailadroddodd y Bwrdd bod gan QAA statws elusennol a chylch gwaith drwy'r DU gyfan ar gyfer materion ansawdd a gofynnodd bod y drafodaeth gyda'r Swyddfa am gynnwys y Cytundeb Dynodi'n cael ei dwyn ymlaen ar sail y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod.

15. **Cytunwyd** y byddai'r Cytundeb Dynodi drafft yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd cyn dod i gytundeb. **Dirprwyodd** y Bwrdd yr awdurdod i lofnodi'r Cytundeb Dynodi rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Roedd y Cadeirydd yn cadw'r hawl i ofyn am gyfarfod eithriadol o'r Bwrdd os byddai ei angen.

Pa wersi allwn ni eu dysgu o adolygiadau ac ymchwiliadau diweddar o ddarparwyr amgen? (item 8, BD-2018-05)

16. Cyflwynodd Mr Naylor bapur yn ymwneud â'r honiadau diweddar am dderbyniadau, twyll academaidd a ffugio tystiolaeth ymysg nifer o ddarparwyr amgen yn Llundain a'r camau a gymerwyd a'r gwersi a ddysgwyd gan yr Asiantaeth o'i gweithgareddau diweddar yn y maes yma.
17. Yn gyfan, codwyd pryder am 19 o ddarparwyr a thynnwyd sylw'r Asiantaeth at y rhain drwy nifer o wahanol lwybrau, yn cynnwys gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, yr Adran Addysg yn Lloegr a phennod o raglen materion cyfoes Panorama BBC, dan y teitl 'Student Loan Scandal'. Dywedodd Mr Naylor bod manylion y darparwyr hyn, yr honiadau a wnaed ac ymateb QAA ymhob achos wedi cael eu trafod gyda'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau yn ei gyfarfod ym mis Chwefror. Yn y mwyafrif o achosion, ymateb QAA oedd gwneud ymchwiliad arwahanol o dan Gynllun Pryderon QAA, neu ymchwilio drwy ymweliad monitro blynyddol neu adolygiad oedd ar waith yn barod neu a oedd ar y gweill. Mewn nifer fechan o achosion, cymerodd yr Asiantaeth ran mewn ymchwiliadau a arweiniwyd gan gyrff eraill.
18. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau hefyd wedi ystyried canlyniadau adolygiad o wersi a ddysgwyd lle rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith nad oedd prosesau adolygu presennol wedi canfod y camymddygiad honedig. Derbyniodd y Bwrdd grynodedig o'r materion allweddol a'r camau gweithredu allweddol y cytunwyd arnynt o ganlyniad i'r adolygiad hwn. Roedd y rhain yn cynnwys newidiadau gweithdrefnol i'r Cynllun Pryderon a mwy o gydweithrediad gyda sefydliadau eraill.
19. Cytunodd y Bwrdd bod sialens canfod a mynd i'r afael â thwyll academaidd yn debygol o ofyn am fwy na newidiadau cynyddrannol ac y byddai angen targedu agweddau'n well yn y dyfodol.
20. Bu'r Bwrdd yn rhoi ystyriaeth ehangach i onestrwydd academaidd a rôl yr Asiantaeth yn y cyswllt hwnnw o ystyried ei dyletswydd i asesu safonau o dan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017. Rhoddwyd ystyriaeth gychwynnol i gynnig a gafwyd am sefydlu 'uned gonestrwydd academaidd' sydd wedi'i chlustnodi i ganfod ac atal twyll academaidd, gyda gweithgareddau'n cynnwys rhoi cyngor a chyfarwyddyd yn ogystal â gorfodiad. Wrth ddatblygu'r gwaith yma, byddai QAA yn cydweithredu â phartneriaid eraill yn y sector, gan dynnu ar arbenigedd cyrff eraill lle bo'n briodol.

21. **Cytunodd** y Bwrdd, fodd bynnag, y dylid archwilio'r mater ymhellach gyda'r Swyddfa Myfyrwyr. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n codi hyn yn y trafodaethau nesaf gyda'r Swyddfa. Dywedodd Mr Naylor y byddai'n adrodd yn ôl am gynnydd mewn un o gyfarfodydd nesaf y Bwrdd.

Penodiadau i'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd (eitem 9, BD-2017-06)

22. **Nododd** y Bwrdd y byddai Mr Robert Cashman a'r Athro John Grattan yn ymddeol o'r Bwrdd ar 15 Mehefin 2018 ac ar 20 Mehefin 2018, yn y drefn honno. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Cashman a'r Athro Grattan, a mynegodd werthfawrogiad y Bwrdd, am eu hymroddiad, eu profiad gwerthfawr a'u cyfraniad at waith yr Asiantaeth yn ystod eu hamser ar y Bwrdd.

23. Penderfynodd y Bwrdd **gymeradwyo**'r penodiadau canlynol i bwyllgorau, ar argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau:

a) I'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau:

- Penodwyd yr Athro Joy Carter am ail dymor o dair blynedd o 14 Mawrth 2018 ymlaen (neu o ddiwedd ei thymor mewn swydd fel aelod o'r Bwrdd, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf).

b) I'r Pwyllgor Cyngori ar Bwerau Dyfarnu Graddau:

- Penodwyd Mr Philip Wilson yn y categori aelodaeth 'aelod o'r Bwrdd' am dymor cychwynnol o dair blynedd o 21 Mehefin 2018 ymlaen (gyda'r opsiwn o un tymor arall o dair blynedd hyd at 21 Mehefin 2024 neu hyd ddiwedd ei dymor mewn swydd fel aelod o'r Bwrdd, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf).
- Penodwyd Ms Jenny Taylor, Arweinydd y Rhaglen Graddedigion, Prentisiaid a Myfyrwyr yn IBM (UK), i ymuno â'r Pwyllgor Cyngori ar Bwerau Dyfarnu Graddau yn y categori aelodaeth 'cyflogwr graddedigion'. Am dymor cychwynnol o dair blynedd o 14 Mawrth 2018 ymlaen (gyda'r opsiwn o un tymor arall o dair blynedd hyd at 14 Mawrth 2024).
- Penodwyd Ms Anne Lambert, Aelod o Fwrdd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, a Chadeirydd Panel yr Awdurdod, Llywodraethwr ym Mhrifysgol Portsmouth, i ymuno â'r Pwyllgor Cyngori ar Bwerau Dyfarnu Graddau yn y categori aelodaeth 'hyrwyddo cystadleuaeth'. Am dymor cychwynnol o dair blynedd o 14 Mawrth 2018 ymlaen (gyda'r opsiwn o un tymor arall o dair blynedd hyd at 14 Mawrth 2024).

c) I'r Pwyllgor Cydnabod a Thrwyddedu Mynediad i AU:

- Penodwyd Dr Mark Nason, Cyfarwyddwr Addysg Uwch a Mynediad i AU, Cyfarwyddwr y Gwyddorau a'r Amgylchedd Naturiol, Pennaeth Coleg Cernyw Newquay (swydd wag i'r sector addysg bellach). Am dymor cychwynnol o dair blynedd o 14 Mawrth 2018 ymlaen (gyda'r opsiwn o un tymor arall o dair blynedd hyd at 14 Mawrth 2024).
- Penodwyd Mr Ben Rockliffe, Arweinydd Polisi, Athrawon Addysg Bellach, yr Adran Addysg yn Lloegr (swydd wag i sectorau eraill). Am dymor cychwynnol o dair blynedd o 14 Mawrth 2018 ymlaen (gyda'r opsiwn o un tymor arall o dair blynedd hyd at 14 Mawrth 2024).
- Penodwyd Ms Beth Massey, Myfyriwr, Prifysgol Caerlŷr (yr achos cyntaf erioed o benodi myfyriwr i'r pwyllgor hwn) am dymor cychwynnol o flwyddyn o 14 Mawrth 2018 ymlaen (gyda'r opsiwn o un tymor arall o flwyddyn hyd at 14 Mawrth 2020).

Adolygiad yn erbyn y Cod Llywodraethu i Elusennau (eitem 10 BD-2017-07)

24. Cyflwynodd Mrs Haines bapur oedd yn nodi canlyniadau adolygiad diweddar o drefn llywodraethu'r Asiantaeth yn erbyn y Cod Llywodraethu newydd i Elusennau. Arweiniwyd yr adolygiad gan swyddog a chafodd ei ategu gan ymarfer hunanwerthuso yn ogystal ag arolwg ac archwiliad sgiliau ymysg aelodau'r Bwrdd. Roedd y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau wedi goruchwyllo elfennau o'r broses adolygu a chafwyd ymarfer hunanwerthuso manwl. Dangosodd yr ymarfer ganlyniadau cryf mewn nifer o feysydd gyda'r mwyafrif o arferion yr Asiantaeth yn alinio gydag egwyddorion llywodraethu da.
25. Roedd y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau wedi rhoi ystyriaeth fanylach i'r egwyddorion sy'n ymwneud â chyfansoddiad y Bwrdd, gan gynnwys sut i ddangos yn ymarferol ymrwymiad y Bwrdd i hybu amrywiaeth ar lefel y Bwrdd a diffinio amrywiaeth yn y cyd-destun y mae'r Bwrdd yn gweithredu ynddo. Pennodd ac argymhellodd y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau gyfres o gamau gweithredu i'r Bwrdd a fyddai'n cyflenwi ac yn gwella arferion cyfredol. Roedd y rhain yn cynnwys:
- cadarnhau amcanion amrywiaeth addas i'r Bwrdd ac adrodd yn flynyddol ar gyflawniad y rhain
  - gwneud archwiliad o amrywiaeth cefndir holl aelodau cyfredol y Bwrdd a chynnwys cwestiynau yn ymwneud ag amrywiaeth fel rhan o'r broses flynyddol o archwilio sgiliau a phenodi
  - adolygu a chyfundrefnu'r arferion penodi i'r Bwrdd ac i'r pwyllgorau gan gynnwys cyfansoddiad y panelau cyfweld a chyflwyno archwiliad o amrywiaeth gydag ymgeiswyr posib yn rhan o'r broses gyfweld
  - sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd wedi gwneud, neu'n gallu cael gafael ar, hyfforddiant priodol mewn amrywiaeth
  - rhoi ystyriaeth fanwl i gyflwyno is-gadeirydd y Bwrdd
  - cyflwyno proses hyfforddi a datblygu sydd wedi'i theilwra'n arbennig i ateb anghenion aelodau'r Bwrdd
  - cynnwys datganiad yn yr adroddiad blynyddol ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn cyflawni egwyddorion y Cod Llywodraethu.
26. Nodwyd y byddai'r Asiantaeth, unwaith y byddai wedi cwblhau'r camau gweithredu uchod, wedi cyflawni 73 allan o'r 74 'arfer cymeradwy' sydd wedi'u rhestru yn y Cod Llywodraethu. Penderfynodd y Bwrdd **gymeradwyo**'r camau gweithredu a gynigiwyd a gofynnodd bod y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau'n goruchwyllo'r cynnydd ar ei ran.

Diweddariad am Barodrydd ar gyfer y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) (eitem 11 BD-2018-08)

27. Cyflwynodd Miss Blackett bapur ar baratodau'r Asiantaeth ar gyfer y RhDDC, gan nodi cyfrifoldebau'r Bwrdd sy'n codi o'r Rheoliadau a sut y byddai'r rhain yn cael eu gweithredu a'u monitro.
28. Dywedwyd bod cynllun cynhwysfawr i baratoi ar gyfer y RhDDC yn ei le ac yn cael ei oruchwyllo gan y Corff Gweithredol gyda'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau'n monitro cydymffurfiad wrth symud ymlaen ar ran y Bwrdd. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau'r manylion diweddaraf am y cynnydd yng

ngweithrediad y cynllun QAA i baratoi ar gyfer cydymffurfio â'r RhDDC a chadarnhaodd y cynnydd oedd i'w weld mewn sicrhau cydymffurfiad erbyn y dyddiad cau ar gyfer gweithredu, sef 25 Mai 2018. Mae hyn wedi cynnwys gweithredu polisi diwygiedig ar gyfer cadw gwybodaeth sy'n cydymffurfio â'r RhDDC; prosesau mapio ac archwilio data er mwyn gostwng y maint o ddata personol a gedwir; a hyfforddiant am 'drin gwybodaeth fel ased' i'r Uwch Dîm Rheoli.

29. Ystyriodd y Bwrdd y fframwaith sicrhau arfaethedig a nododd y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau'n dal y Corff Gweithredol yn atebol am sicrhau bod yr egwyddorion atebolrwydd ac eglurder yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn dod yn rhan o ddiwylliant yr Asiantaeth. Byddai'r Pwyllgor yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd am gynnydd.
30. Aeth y Bwrdd ati i:
  - a. **ystyried** ei gyfrifoldebau o dan y RhDDC a **chymeradwyo**'r cynlluniau ar gyfer cyflawni'r cyfrifoldebau
  - b. **gymeradwyo** cynllun sicrhau y Bwrdd.

#### Newidiadau i'r Rheoliadau Ariannol (eitem 12 BD-2018-09)

31. Cyflwynodd Mrs Rosser bapur yn disgrifio'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Ariannol. Roedd y prif newidiadau'n ymwneud â'r cyfyngiadau awdurdodi ar gyfer incwm a gwariant ac ar gyfer awdurdodi contractau. Cynigiwyd y newidiadau i sicrhau mai'r person mwyaf priodol oedd yn gwneud y penderfyniadau a bod y broses wedi'i symleiddio ac yn effeithiol. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd byddai'r newidiadau'n cael eu cyfathrebu'n fewnol a byddai'r strwythurau rheolwyr llinell yn darparu'r gefnogaeth er mwyn ymwreiddio'r newidiadau. Cadarnhaodd Mrs Rosser y byddai'r rheoliadau'n cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau ac yn cael eu cyfeirio at y Bwrdd os byddai unrhyw newidiadau mawr.
32. Gofynnwyd am eglurhad ar bwynt 117 o'r rheoliadau (Penodi Staff) mewn perthynas â'r awdurdod sydd gan y Prif Weithredwr i awdurdodi penodiadau ar lefel Cyfarwyddwr a chyfranogaeth y Bwrdd mewn penderfyniadau o'r fath. Cadarnhaodd y Cadeirydd mai'r sefyllfa bresennol, fel yr oedd wedi'i chytuno gan y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau, ac a oedd wedi'i nodi yn ei gylch gwaith, oedd mai gan y Prif Weithredwr oedd yr awdurdod i benodi Cyfarwyddwyr newydd. Cyfeiriodd y Bwrdd y mater yma i'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau
33. Aeth y Bwrdd ati i:
  - a. **gymeradwyo**'r newidiadau a gynigiwyd i'r Rheoliadau Ariannol sydd wedi'u nodi yn Atodiad A ar argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau
  - b. **gymeradwyo**'r argymhelliad bod y Bwrdd yn dirprwyo'r awdurdod i gymeradwyo diwygiadau bychain i'r Rheoliadau Ariannol i'r Trysorydd Mygedol ar argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau.

#### Cynllun Awdurdodau Dirprwyedig (eitem 13 BD-2018-10)

34. Penderfynodd y Bwrdd **gymeradwyo**'r awdurdodau a ddirprwywyd, o'r Bwrdd i fyny at, ac yn cynnwys, y Prif Weithredwr, fel y maent wedi'u disgrifio yn y Cynllun diwygiedig, i'w gweithredu ar unwaith gan nodi'r eglurhad ar faterion penodi staff fel y cawsent eu trafod yn yr eitem flaenorol.

## Eitemau gohebu

### Y Cynllun Blynyddol - Yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Tymor 1 (eitem 14 BD-2018-11)

35. Derbyniodd ac **ystyriodd** y Bwrdd yr adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Tymor 1. Roedd yr adroddiad yn graddio'r blaenoriaethau a'r amcanion strategol gan ddefnyddio system oleuadau traffig. Yn dilyn adolygiad gan y Corff Gweithredol, cofnodwyd bod 11 allan o'r 14 blaenoriaeth ar y trywydd cywir a bod tri ar yr oren (ddim ar y pwynt cywir eto) oherwydd problemau gydag amseru/cyfnodau. Rhoddwyd crynodeb o'r camau unioni a'r cyflawniadau allweddol.

### Yr Adroddiad Ariannol ar gyfer Tymor 1 (eitem 14 BD-2018-12)

36. Cyflwynodd Mrs Rosser yr Adroddiad Ariannol ar gyfer Tymor 1. Roedd yr adroddiad yn nodi'r sefyllfa ariannol hyd at 31 Rhagfyr 2017 a rhagfynegiad diwygiedig hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol, 31 Gorffennaf 2018.
37. Nododd y Bwrdd bod yr adroddiad monitro ar gyfer tymor 1 wedi pennu incwm ychwanegol ond bod y gwarged gweithredu yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfan wedi gostwng o £94k, o ganlyniad i gostau untro nad oedd modd eu rhagweld. I ddod â'r gwarged gweithredu a ragfynegwyd yn ôl yn gyfatebol gyda'r gyllideb, roedd y Corff Gweithredol wedi rhewi'r broses recriwtio (heblaw am swyddi amnewid hanfodol y busnes), roedd yn adolygu'r holl gostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau ac roedd yn ceisio cyllid ychwanegol ar gyfer gweithgareddau newydd yn cynnwys gwaith datblygu mewn perthynas â'r fframwaith rheoleiddio newydd yn Lloegr.
38. Byddai ail ragfynegiad yn digwydd ddiwedd mis Mawrth 2018 gyda'r nod o gyflawni'r rhagfynegiad wedi'i gyllidebu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Cadarnhaodd Mr Kimber bod gweithgareddau wedi gwella ers i'r papur gael ei ysgrifennu am yr incwm a ragfynegwyd o weithgareddau Arloesi a Menter, a bod yr incwm ar y trywydd cywir erbyn hyn i gyflawni'r targed.
39. Aeth y Bwrdd ati i:
- ystyried** yr adroddiad ar sefyllfa ariannol bresennol QAA a'r rhesymau allweddol y tu cefn i unrhyw amrywiadau arwyddocaol
  - ystyried** y sefyllfa a ragfynegwyd hyd at 31 Gorffennaf 2018
  - gytuno** ar yr amrywiad ar gyfer defnyddio'r gwariant a gymeradwywyd o £180K o'r Gronfa Arloesi a Datblygu ar gyfer gwaith ehangach i sicrhau rôl QAA yn y fframwaith rheoleiddio.

### Adroddiad cryno o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Bwrdd (eitem 15, BD-2018-13)

40. Derbyniodd ac **ystyriodd** y Bwrdd adroddiad cryno am gyfarfodydd Pwyllgorau'r Bwrdd a gynhaliwyd ers mis Hydref 2017.

## Unrhyw fater arall

Am nad oedd unrhyw fater arall, caeodd y Cadeirydd y cyfarfod.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2018  
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)